# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Oliver James | **Adran Etholiadol:** | Y Cocyd |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | n/a |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi bod yn ymwneud â llawer o brosiectau unigol ar ran preswylwyr yn y ward. Rwyf i a fy nghyd-gynghorwyr ward wedi bod yn cynnal cymorthfeydd ddwywaith y mis yn Fforest-fach ac yn Waunarlwydd. Gall preswylwyr gysylltu â fi unrhyw bryd drwy ffonio neu e-bostio ac rwyf wedi helpu gydag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys baw ci, sbwriel, palmentydd ansefydlog, gwrychoedd sydd wedi gordyfu, ceisiadau cynllunio a llawer mwy. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda phreswylwyr a'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bendigedig ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cerbydau wedi'u gadael, goryrru ac ymddygiad anghyfreithlon.

Trefnais i a fy nghydweithwyr ward welliannau ffyrdd yn Waunarlwydd a Gendros, yn ogystal â sicrhau bod blodau gwyllt a blychau blodau'n cael eu plannu ar draws y ward.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Roeddwn yn Is-Gadeirydd ar gyfer Cyfeillion Parc Ravenhill rhwng 2018 a 2019, sef grŵp o breswylwyr sy'n frwd dros gynnal a gwella'r cyfleuster gwych. Gwnaed cynnydd a gobeithiaf y byddwn i a Mike (Cadeirydd) yn gallu helpu'r grŵp i wneud rhagor o welliannau.

Rwyf wedi gweithio gyda swyddogion i wella Parc Gendros, gosod llawr newydd i ymdrin â'r tir corslyd a gosod siglenni newydd/llithren fwy, drwy ddefnyddio arian o'n 'Cyllideb Cynghorwyr Cymunedol'. Mae'n ymddangos fel pe bai hyn wedi mynd yn dda am nad yw'r tir yn gorslyd mwyach. Mae'n dda gweld bod y parc wedi bod yn brysur ers i'r gwaith gael ei wneud.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ar y cyd â'm cydweithwyr ward, rwyf wedi parhau i gefnogi gwaith gwych Sefydliad Roots a Fferm Gymunedol Abertawe.

Trefnais helfa anrhegion Nadolig yn ystod wythnos olaf y tymor ysgol cyn y Nadolig. Cuddiais anrhegion ar gyfer y plant o amgylch yr ysgol fel y gallent ddod o hyd iddynt gyda'u rhieni ar eu ffordd i'r ysgol ac oddi yno. Roedd hyn yn boblogaidd iawn â rheini a disgyblion - roedd yn dda gweld cynifer o wynebau hapus wrth i mi fynd â'm merch i'r ysgol yn y bore.

Rwyf hefyd wedi bod yn rhan o fentrau cymunedol eraill, megis casglu sbwriel a drefnwyd gan Eglwys San Pedr, a oedd yn llwyddiannus iawn.

Gallwch ddod o hyd i ragor o ddiweddariadau, lluniau a gwybodaeth ar fy nhudalen Facebook.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,600

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11/02/2020 |